Cofnodion Cyfarfod Cyngor Cymuned Llanddona.
A gynhaliwyd ar Nos Fercher Tachwedd 18fed - 2015
am 7.30 o'r gloch.

1. Presennol - Cynghorwyr Myrddin Roberts (Cadeirydd, MR), Geraint Parry (Clerc), Maldwyn Williams (MW), Dafydd Pritchard (DP), Alwena Roberts (AR) a Rhian Hughes (RH), Lewis Davies (LD)

2.Ymddiheuriadau - Cyng. Bari Gwilliam, Carwyn Jones, Mark Williams ac Alwyn Rowlands.

3. Datgan Ddiddordeb
MW ar drafodaeth Tyddyn Waun.
RH ar drafodaeth Neuadd y Pentre' a rhodd i
Cyng. L Davies ar drafodaeth cais cynllunio 22C227

4.Cofnodion
Penderfynwyd derbyn y cofnodion o'r cyfarfod a gynhaliwyd ar 21ain Hydref fel rhai cywir gan Cyng. R Hughes, eilio gan Cyng. A Roberts.

5. Materion yn codi o'r Cofnodion
5.1 **Fynwent Llanddona** - LD - yn dilyn trafodaeth gyda swyddog o'r Cyngor Sir ar waith gan Ymddiriedolaeth Archeolegol Gwynedd, maent yn meddwl fod yna le i tua 100 o feddau ar y safle. LD i ofyn i'r Cyngor Sir am amserlen a digwyddiadau. MR yn gofyn a oes grant ar gael i bwrcasu cofeb?
5.2 **Cerrig ger Llain Gron** – arwyddion wedi cael ei gosod bob ochr i'r ffordd. MR wedi trafod y mater gyda'r perchennog, lle mae wedi cytuno symud y cerrig os bydd y traffig yn tawelu.
5.3 **Baw Cŵn -** dim newyddion ymhellach ynglŷn ar arwyddion. Clerc i drafod gyda'r Heddlu.
5.4 **Biniau lleol –** cael gosod ger Creigle a Tan Ffordd. LD wedi gofyn i'r Cyngor Sir.
5.5 **Llwybr Tai Bach -** MR wedi ffonio A Evans (Cyngor Sir) i ddweud bod perchennog y tŷ cyfagos wedi gosod craidd caled lle mae'r llwybr troed i fod. Swyddog o'r Cyngor wedi ymweld ar safle i weld y gwaith. Rydym ar ddeall nawr bydd yr adroddiad hir disgwyliedig wedi ei gwblhau o fewn yr wythnos.
5.6 **Arwyddion Cymraeg** – wedi ei gosod.
5.7 **Cyfarfod Peilonau** - MR wedi ymuno a chyfarfod ymgynghoriad gan y Grid Cenedlaethol heno ym Mhorthaethwy, lle cyflwynwyd llwybrau'r llinellau pŵer ar opsiynau ynghlyn ar beilonau. Awgrymu bod angen arweiniad cryf gan y Cyngor Sir ar y mater.
5.8 **Cartref Preswyl Haulfre -** llongyfarch LD a CJ am ei gwaith caled i gadw Haulfre yn agored. LD wedi ymuno a pharti ar 13/11/15 gyda'r preswylwyr, staff a theuluoedd. Cyngor Sir yn awgrymu gwario fwy o arian ar y cartref.
5.9 **Bryn, Llansadwrn -** Adran Priffyrdd wedi torri'r coed ger Bryn, Llansadwrn

6. Adroddiad gan y Cynghorydd
- Maen tebyg bod Wardeniaid Tai Gofal yn colli swyddi dros yr Ynys. Maent yn meddwl cael Warden i gwmpasu mwy o ardal.
- Cyngor Sir yn meddwl arbed £5.6 miliwn yn y gyllideb 2016/17. Wedi darganfod £4.5 miliwn o arbedion ond disgwyl mwy o wybodaeth o Gaerdydd.
- Biniau - Cyngor Sir yn meddwl newid casglu bin sbwriel du i bedwar wythnos, ond rydym yn ceisio eu perswadio'r casgliad i dair wythnos.
- Angen adrodd ar rywun sy'n cael problemau gyda phobl yn ffonio neu yn gwneud gwaith ac yn trio ei thwyllo wrth ofyn am arian.

7. Ceisiadau Cynllunio
- 22C227 - Cais llawn ar gyfer addasu ac ehangu ym Minffordd, Llanddona - dim gwrthwynebiad.
- CYM650693 (CYM526084) - derbynwyd rhybudd (B13) gais i gofrestru hawliau, sef hawl tramwy ar dir ger Ffordd Deg, Llanddona. Mae hawliau gan y tirfeddiannwr yn barod. Dim gwrthwynebiad.

8. Plot Glandŵr
Derbyniwyd llythyr gan gyfreithiwr yr ymgeisydd lle maent yn datgan bydd unrhyw fath o ail wynebu yn cael ei delio gyda Gweinidogion Cymru. Maent nawr yn gofyn am engrossment cyfatebol.
MW - yn cynnig ein bod ni yn dod ar fater yma i ben.
MR - mae'n bwysig iddynt gael caniatâd cyntaf cyn cael hawddfraint? Clerc i ofyn i ein cyfreithiwr.

9. <u>Tir Comin</u>
Gwaith wedi dechrau gan y contractwr i dorri tir comin o gwmpas y pentre'. Wedi derbyn e-bost gan SH sy'n cadarnhau cyfraniad o £1,500 am y gwaith i'r Cyngor Cymuned. Cytunwyd i'r cais am gyfraniad gwirfoddol oddi wrth aelodau'r Cyngor Cymuned mewn treulio bore o waith ar gomin Llaniestyn erbyn canol mis Chwefror. Mae hefyd angen trefnu dyddiadau gwirfoddol trwy grŵp wirfoddoli AHNE.
Cyng. MW - yn bryderus am y gwaith yma, oes digon o goed yn cael eu torri ar y tir comin?
Gyda gwaith ar gomin Llaniestyn, mae wedi cael cydsyniad gan NRW i wneud y gwaith hwn.
SH yn codi'r pwyntiau hyn

a) Ffens ar ddiwedd y llwybr gyferbyn a Arwel, gellir ei symud neu ei newid? Penderfynwyd feindio allan pwy i'w'r perchennog
b) Oes bosib symud y bin ar y Rhos i ochr arall o'r ffordd? Penderfynwyd gadael bin fel y mae.

Angen edrych i mewn i'r rhestr o grantiau sydd wedi ei dderbyn gan Rhun ap Iorwerth.
Tyddyn Waun
Clerc wedi arwyddo'r ddogfen ac wedi ei anfon i'r swyddfa Cofrestrfa Tir.

10.<u>Cyfrifon</u>
Penderfynwyd talu:-

- Royal British Legion - £18.00 torch
- Countryside Management - gynnal a chadw Comin Llaniestyn - £156.00
- Pwyllgor Henoed, Llanddona - i rodd o £100 at barti Nadolig.

11.<u>Gohebiaeth</u>
E-bost - Cyngor Sir – Tai Bach
E-bost - E Evans – Tai Bach
E-bost - Grid Genedlaethol
E-bost – Cyngor Sir Pwyllgor Safonau
E-bost – Cyfarfod Cyswllt Cynghorau Cymunedol a Thref
Llythyr – Cyngor Sir – Gwasanaeth Ieuenctid Ynys Môn
Llythyr – Gwynedd/Môn – Adroddiad Cynllun Adnau
Llythyr – Cyngor Sir, cyfrif cysgu allan
Apêl - Cadw Cymru Daclus
Apêl - Croes Coch

12. <u>UFA:</u>
12.1 AR - dilyn trafodaeth gyda'r contractwyr sydd yn torri tir comin, mae llawer o fagiau baw ci wedi ei daflyd yn y gwrych.
12.2 Eisteddfod Genedlaethol Môn 2017 - Llangoed wedi cytuno i gyfarfod cyhoeddus ar y cyd gyda Llanddona yn y flwyddyn newydd er mwyn cael trefnu pwyllgor ayyb. Penderfynwyd hysbysebu'r cyfarfod ar "Facebook" a gosod posteri.
12.3 Tyllau lonydd - LD i gysylltu ar Cyngor Sir.
12.4 Ymweliad gan Ambiwlans Awyr Cymraeg am 7 o'r gloch 24/11/15 yn Neuadd y Pentre'.
12.5 RH - Neuadd y Pentre' - cais Loteri wedi mynd i mewn. Disgwyl rhestr eiddo oddi wrth y Cyngor Sir.
12.6 Cae Maes Mawr - oes caniatâd i symud y giât mochyn? Cyngor Sir yn edrych i mewn i'r mater.
12.7 MW - Cyflymder band eang yn araf iawn yn yr ardal hon. LD i drafod y mater gyda CJ a Rhun ap Iorwerth.
12.8 DP – wedi derbyn cwyn gan gerddwyr bod ceffylau ar y llwybr troed ger Capel Peniel.

13.<u>Dyddiad cyfarfod nesaf:</u>
Nid oedd mwy o fusnes i'w drafod. Diolchodd y Cadeirydd i bawb am ei gyfraniad.
Daeth y cyfarfod i derfyn am 9.40 o'r gloch.
Penderfynwyd trefnu cyfarfod nesaf ar 16/12/15 am 7.30 yn Capel Peniel.

Llofnod y Cadeirydd Dyddiad